



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder


Ministry  
of Justice

# Gwella'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau

Papur Ymgynghori CP8/2013

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 29 Mawrth 2013

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 10 Mai 2013







Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

Ministry  
of Justice

## **Gwella'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau**

**Papur ymgynghori wedi'i gynhyrchu gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael hefyd ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn [www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk)**

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

**At:** Anelir yr ymgynghoriad hwn at y cyhoedd, dioddefwyr troseddau, asiantaethau cyfiawnder troseddol, y farnwriaeth, y sector cynghori, cyrff sy'n gweithio gyda dioddefwyr troseddau a phawb sydd â diddordeb yn y maes hwn yng Nghymru a Lloegr.

**Hyd:** O 29 Mawrth 2013 tan 10 Mai 2013

**Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** Bola Fabunmi  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3555

E-bost: [VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk)

**Sut mae ymateb:** Anfonwch eich ymateb ar-lein at:  
[VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk) erbyn 10 Mai 2013

neu anfonwch eich ymateb erbyn 10 Mai 2013 at:

E-bost: [VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk)

Neu drwy'r post i:

Victims Code Consultation,  
Ministry of Justice,  
Post point 8.1  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ

## Cynnwys

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn	4
Cynnwys	1
Rhagair gan Helen Grant AS, Y Gweinidog dros Ddiodefwyr a'r Llysoedd	3
Asesiad o Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb	5
Cyflwyniad – yr achos dros newid	6
Y Cynigion	12
Holiadur	28
Amdanoch chi	30
Manylion cysylltu/Sut mae ymateb	31
Egwyddorion ymgynghori	33

---



## Rhagair gan Helen Grant AS, Y Gweinidog dros Ddiodefwyr a'r Llysoedd



A minnau'n Weinidog Cyfiawnder sy'n gyfrifol am ddiodefwyr, rwyf wedi ymrwmo i wella'r gwasanaethau a'r cymorth i ddiodefwyr yn y system cyfiawnder troseddol. Dyna pam yr wyf yn falch iawn o allu lansio'r ymgynghoriad hwn ar sut i wella'r Cod Ymarfer presennol i Ddiodefwyr Troseddau - y Cod Dioddefwyr. Cyn dod yn Weinidog dros Ddiodefwyr, roeddwn wedi bod yn gyfreithiwr am 23 mlynedd yn diogelu unigolion a oedd wedi dioddef trais yn y cartref a throseddau casineb. Rhoddodd y profiad hwn ddarlun clir iawn imi o sut mae pobl yn dioddef nid yn unig effeithiau'r troseddau yn eu herbyn, ond hefyd y profiad anodd o ddelio â'n System Cyfiawnder Troseddol wedi hynny.

Mae'r Llywodraeth am wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod y cymorth a'r arweiniad priodol ar gael i helpu diodefwyr drwy'r hyn sy'n aml yn gyfnod sensitif, pryderus ac emosiynol. Y llynedd, cyhoeddasom ein hymateb i'r ymgynghoriad '*Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion*'. Yn hwnnw gwnaethom ymrwymiad i ddiwygio'r Cod Dioddefwyr presennol.

Rydym wedi ystyried barn oddeutu 150 o sefydliadau yn ofalus ac wedi gofyn i unigolion am eu barn yn ystod ymgynghoriad y llynedd. Mae'r papur ymgynghori hwn yn darparu 'Cod' gwell sy'n rhoi sylw i lawer o'r pryderon a gafodd eu codi. Y bwriad yw rhoi eglurder i ddiodefwyr ynghylch eu hawliau ar bob cam o'u taith drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae hefyd yn egluro'r dyletswyddau sydd ar yr asiantaethau Cyfiawnder Troseddol i sicrhau bod pobl yn cael yr hawliau y mae eu hangen arnynt.

Mae adran newydd ar hawliau ar gyfer diodefwyr o dan 18 oed sy'n hawdd i blant, pobl ifanc, rhieni a gwarcheidwaid ei deall.

Mae'r cynllun Datganiad Personol Dioddefwr wedi'i gynnwys yn y Cod hefyd am y tro cyntaf. Mae'r cynllun hwn wedi bod ar waith ers 2001. Mae'n rhoi cyfle i ddiodefwyr ddisgrifio effeithiau ehangach y trosedd arnynt, rhoi cyfle iddynt fynegi'u pryderon a nodi a oes angen cefnogaeth neu beidio arnynt.

Am y tro cyntaf hefyd, bydd pob busnes yn gallu cyflwyno 'Datganiad Effaith' a fydd yn gadael iddynt esbonio sut y mae trosedd wedi effeithio arnynt, gan bwysleisio'r effeithiau economaidd ac ariannol ehangach y gall trosedd eu cael ar gymuned.

Cyfiawnder Adferol yw'r broses o ddwyn ynghyd y rheini sydd wedi cael eu niweidio gan drosedd neu wrthdaro a'r rheini a oedd yn gyfrifol am y niwed er mwyn dod o hyd i ffordd gadarnhaol o symud ymlaen. Mae'n ddull sydd wedi'i brofi o leihau aildroseddu ac eto, am y tro cyntaf, bydd y Cod yn cynnwys gwybodaeth am fanteision y broses hon i ddiodefwyr.

Yn olaf, ni waeth pa mor galed y byddwn yn ymdrechu, weithiau ni fydd popeth yn mynd fel y dylai. Oherwydd hyn, rhaid cael trefn gwyno effeithiol, effeithlon a chlr. Dyna pam, o dan y Cod diwygiedig, y bydd yn rhaid i bob asiantaeth cyfiawnder troseddol gael prosesau cwyno clir a thryloyw ar waith i ddarparu ymatebion cyflym a thrwyadl i ddiodefwyr. Fel blaenoriaeth, rydym yn edrych ar ffyrdd eraill y tu allan i'r Cod i wneud yn siŵr bod asiantaethau'n wirioneddol atebol i anghenion diodefwyr.

Mae ein System Cyfiawnder Troseddol wedi bod yn canolbwyntio'n fawr iawn ar gosbi troseddwr ers amser maith, ond heb roi digon o sylw i anghenion diodefwyr. Credaf fod yn rhaid inni newid hynny. Gobeithio y bydd y darpariaethau yn y papur hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at unioni'r anghvdbwysedd a helpu ein hymgais i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol.



Helen Grant AS  
Mawrth 2013



## Asesiad o Effaith a'r Datganiad Cydraddoldeb

Er mwyn rhoi gwybodaeth ar gyfer yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon, rydym wedi cyhoeddi dadansoddiadau ar wahân o effeithiau posibl ein cynigion.

- Asesiad o effaith: Eu pwrpas yw nodi'r prif grwpiau y bydd ein cynigion yn effeithio arnynt a'r costau a'r buddion tebygol i'r grwpiau hynny. Mae'r asesiad o effaith ar gael yn <<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/code-victims-crime>>
- Datganiad Cydraddoldeb: er mwyn cyflawni'n rhwymedigaethau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r rhain yn ystyried effeithiau posibl ein cynigion yn ôl y nodweddion gwarchoddedig canlynol - oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/code-victims-crime>

Rydym yn croesawu sylwadau am gywirdeb a hyd a lled yr effeithiau a nodwyd. Rydym yn croesawu'n arbennig ymatebion gan y rheini sy'n ystyried eu bod yn rhannu nodwedd warchoddedig neu gan grwpiau buddiant sy'n cynrychioli'r rheini â nodweddion gwarchoddedig. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i'r Llywodraeth benderfynu ar y ffordd orau o symud ymlaen ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

## Cyflwyniad – yr achos dros newid

1. Mae troseddau'n effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol. Ar gyfer rhai diodefwyr efallai mai byr fydd yr effaith ac yn ymarferol. I eraill, megis diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, gall yr effaith achosi trallod mawr neu newid eu bywydau am byth. Mewn oddeutu 80%<sup>1</sup> o achosion, dywed y diodefwyr nad ydynt eisiau dim gwybodaeth, cyngor na chefnogaeth oddi wrth y wladwriaeth nac oddi wrth ffynonellau eraill. Ond dywed oddeutu 20% eu bod am gael hynny, ac mae'r Llywodraeth yn credu'n gryf y dylai diodefwyr gael y cymorth y mae ei angen arnynt.
2. Cyflwynwyd y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (y 'Cod Dioddefwyr') yn 2006. Ei bwrpas oedd disgrifio'r gwasanaethau i'w darparu yng Nghymru a Lloegr gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.
3. Mae angen diweddarau'r Cod i adlewyrchu'r newidiadau sydd eisoes ar waith ac i ddisgrifio mewn ffordd syml beth y gall diodefwyr ei ddisgwyl oddi wrth y gwasanaethau y mae'n rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol eu darparu.
4. Y llynedd, cynhaliodd y Llywodraeth yr ymgynghoriad '*Getting it right for victims and witnesses*'. Cyhoeddodd yr Ymateb ym mis Gorffennaf y llynedd<sup>2</sup>. Roedd yr ymgynghoriad yn delio â'r egwyddorion a oedd y tu ôl i ddiwygio'r Cod Dioddefwyr. Yr egwyddorion ar gyfer diwygio oedd:
  - Dioddefwyr i gael eu trin ag urddas a pharch.
  - Dioddefwyr, eu hadroddiadau am droseddau a'u pryderon i'w cymryd o ddifrif.
  - Teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth oherwydd dynladdiad neu lofruddiaeth i dderbyn y cymorth arbenigol y mae ei angen arnynt.
  - Gwybodaeth am eu hachos i fod ar gael yn hwylus i bob diodefwyr ac yn cael ei chynnig yn rhagweithiol.
  - Dioddefwyr, y mae'n rhaid iddynt fynd i'r llys fel tystion, ac y mae angen cymorth ymarferol arnynt i wneud hynny, yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt pan fyddant yn cyrraedd.

---

<sup>1</sup> Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yr adroddiad ar ddod. Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr (CSEW) 2007/08 a 2008/09 – y blynyddoedd olaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. Arolwg diodefwyr wyneb yn wyneb yw Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr lle gofynnwyd i bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr am eu profiadau o amrywiaeth o droseddau personol a throseddau yn erbyn y cartref. Nid yw'n cynnwys rhai mathau o drosedd, megis twyll, troseddau yn erbyn adeiladau masnachol, a dynladdiad. Nid yw'r data a gyflwynir yma yn cynnwys plant o dan 16 oed; nid yw'r amcangyfrif hwn ychwaith yn cynnwys diodefwyr trais rhywiol

<sup>2</sup> <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses>

- Dioddefwyr sy'n awyddus i lenwi Datganiad Personol Dioddefwr i gael y cyfle i wneud hynny a gallant ddisgwyl i hwnnw gael ei ystyried gan y llys.
  - Bydd dioddefwyr bregus a'r rheini sy'n cael eu bygwth yn cael eu cefnogi i deimlo'n ddiogel ac yn saff.
  - Bydd gan ddiodefwyr yr hawl i ofyn am gael cyfrannu at gyfiawnder adferol a dylai hyn gael ei ddarparu pan mae ar gael ac yn amodol ar adnoddau.
  - Bydd busnesau sydd wedi dioddef trosedd yn derbyn y wybodaeth a'r cymorth y mae ei angen arnynt.
5. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn teimlo nad oedd y Cod Dioddefwyr presennol, a gyflwynwyd yn 2006, yn ddigon cyfredol. Roeddynt yn teimlo nad yw'r Cod fel y mae ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ddiodefwyr ac yn rhoi gormod o sylw braidd i brosesau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid y syniad o adolygu'r Cod. Yn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad, gwnaethpwyd ymrwymiad i ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd ymhellach er mwyn cyfrannu at gynnwys Cod Dioddefwyr diwygiedig.
  6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflawni ein hymrwymiad i ymgynghori ar y Cod drafft yn gynnar yn 2013. Wrth baratoi'r Cod diwygiedig yn Atodiad A y papur ymgynghori hwn, rydym wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol. Rydym hefyd wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Cartref a'r Twrnai Cyffredinol yn unol â gofynion Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004.
  7. Mae diwygio a gwella'r Cod Dioddefwyr yn rhan o strategaeth polisi domestig ehangach y Llywodraeth i ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol a gwella gwasanaethau a'r gefnogaeth i ddiodefwyr a thystion. Yn ogystal, bydd y Cod diwygiedig hefyd yn trosi rhan o "Gyfarwyddeb Dioddefwyr" yr UE<sup>3</sup> sy'n pennu'r isafswm safonau cymorth y mae'n rhaid i aelod-wladwriaeth eu darparu i ddiodefwyr trosedd o fewn ei hawdurdodaeth. Mae'r Gyfarwyddeb yn ategu diwygiadau'r Llywodraeth i'r Cod Dioddefwyr ac, at ei gilydd, mae'n gydnaws â llawer o arfer cyfredol yn y DU. Bydd y Gyfarwyddeb yn dod i rym ar 16 Tachwedd 2015.
  8. Bydd y Cod hefyd yn cael ei ddefnyddio i drosi rhannau o Gyfarwyddebau eraill yr UE sy'n ymwneud â diodefwyr – ar fasnachu mewn pobl a chamfanteisio'n rhywiol ar blant<sup>4</sup> - i sicrhau bod diodefwyr y troseddau hyn yn cael eu trin mewn ffordd briodol a sensitif gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

---

<sup>3</sup> 2012/29/EU.

<sup>4</sup> 2011/36/EU a 2011/92/EU.

## **Siarter y Tystion**

9. Cawsom adborth cadarnhaol am Siarter y Tystion yn ystod yr ymgynghoriad '*Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion*'. Roedd yr ymatebwyr yn hoffi'r ffaith bod y Siarter yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'r canlyniadau y gall tystion eu disgwyl, yn hytrach na'r broses ar gyfer cyflawni'r rhain. Roeddynt yn cytuno bod y Siarter yn ddogfen weddol syml a hawdd ei defnyddio.
10. Ond bydd yn rhaid diweddarau a diwygio Siarter y Tystion yn unol ag egwyddorion y Cod Dioddefwyr. Rydym hefyd wedi ystyried pryderon nad oes digon o bobl yn gwybod am y Siarter ac yn cytuno bod yn rhaid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddo. Dyna pam yr ydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y maes cyfiawnder troseddol i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gyhoeddi Siarter Tystion diwygiedig ochr yn ochr â'r Cod newydd.

## **Cynigion ar gyfer Cod Dioddefwyr diwygiedig**

11. Mae gan yr asiantaethau cyfiawnder troseddol y mae'n rhaid iddynt ddarparu gwasanaethau o dan y Cod Dioddefwyr ddyletswydd i drin diodefwyr trosedd yn sensitif, â pharch ac mewn modd proffesiynol heb wahaniaethu mewn unrhyw ffordd. Rhaid rhoi cefnogaeth gydol y broses gyfiawnder ac wedyn, os oes angen hynny. Mae'r Cod Dioddefwyr yn nodi'r paramedrau ar gyfer rhoi cymorth o'r fath.
12. Mae diodefwyr ac ymarferwyr wedi dweud wrthym nad yw'r Cod presennol yn hawdd ei ddefnyddio. Dywedodd ymatebwyr i'n hymgynghoriad yn 2012 ei fod yn rhy ragnodol, ac yn rhoi dim hyblygrwydd i'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill ar gyfer delio ag amrywiaeth o ddiodefwyr. Teimlai llawer fod y Cod wedi cael ei ysgrifennu ar gyfer ymarferwyr yn hytrach nag ar gyfer diodefwyr.
13. Er mwyn i'r Cod ganolbwyntio'n fwy ar ddiodefwyr, mae wedi cael ei ailysgrifennu mewn ffordd fwy hygyrch, o ran iaith a strwythur. Mae'n nodi hawliau diodefwyr, gan adlewyrchu'r gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu iddynt, fel eu bod yn deall yn iawn beth y byddant yn ei dderbyn gan asiantaethau cyfiawnder troseddol ar bob cam. Mae'r Cod diwygiedig yn cynnwys yr adrannau canlynol:
  - Hawliau diodefwyr
  - Dyletswyddau asiantaethau cyfiawnder troseddol
  - Hawliau plant a phobl ifanc o dan 18 oed
  - Dyletswyddau asiantaethau cyfiawnder troseddol ar gyfer plant a phobl ifanc o dan 18 oed
  - Busnesau

Rydym hefyd wedi cynnwys rhestr o'r prif dermau fel cymorth i ddeall.

14. Rydym yn gwybod nad yw'r dull "un ateb yn addas i bawb" ar gyfer darparu gwasanaethau a chymorth i ddiodefwyr yn briodol, a chredwn y dylai diodefwyr dderbyn gwasanaethau a fydd wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn. Ni ddylai diodefwyr nad ydynt am gael cyswllt na chymorth gan asiantaethau cyfiawnder troseddol ei dderbyn. Gall diodefwyr eraill gytuno â'r heddlu, neu asiantaeth arall, ar lefel y cyswllt neu gymorth y mae ei angen arnynt o dan y lefel sylfaenol sydd wedi'i nodi yn y Cod diwygiedig. I'r gwrthwyneb, bydd gan ddiodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr bregus neu ddiodefwyr sy'n cael eu bygwth a'r diodefwyr sy'n cael eu targedu'n fwyaf cyson hawl i wasanaeth estynedig, a fydd yn galluogi asiantaethau cyfiawnder troseddol i dargedu'u hadnoddau i gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf a darparu cymorth ychwanegol i helpu'r diodefwyr hyn i ymdopi a gwella. Bydd hawliau diodefwyr yn cael eu gosod allan ym mhennod gyntaf y Cod diwygiedig.
15. Mae'r hawliau hyn ar gyfer diodefwyr yn llifo o'r set glir o ddyletswyddau'r asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n rheoli'r gwasanaethau y mae'n rhaid iddynt eu darparu i ddiodefwyr ym mhennod 2 y Cod. Bydd y rhain yn cael eu gosod allan hefyd mewn ffordd a fydd yn darparu gwasanaeth mwy hyblyg a theilwredig. Lle mae newidiadau wedi cael eu gwneud i ddyletswyddau sydd eisoes yn bodoli, bwriad y cynigion yw gwella'r hawliau a'r gwasanaeth a gynigir i'r diodefwyr dan y Cod cyfredol.
16. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd gennym bob amser ddiodefwyr ag anghenion aciwt a fydd angen set o ofynion arbenigol ac wedi'u teilwra'n arbennig ar eu cyfer. Fel rhan o ddarparu gwasanaeth estynedig i ddiodefwyr bregus a diodefwyr sy'n cael eu bygwth, mae'r Cod drafft yn cynnwys adran ar wahân ar gyfer diodefwyr o dan 18 oed (yn codi o 17 oed), eu rhieni a gwarcheidwaid. Mae hawliau penodol wedi'u cynnwys hefyd ar gyfer y rheini sydd wedi diodef profedigaeth oherwydd ymddygiad troseddol.
17. Gwnaeth y Llywodraeth hefyd ymrwymiad yn ymgynghoriad y llynedd i adolygu'r Cynllun Datganiad Personol Dioddefwr. Drwy gynnwys Datganiad Personol Dioddefwr yn y Cod am y tro cyntaf, rhagwelwn y bydd hwn yn cryfhau llais y diodefwyr yn y system cyfiawnder troseddol.
18. Cawsom ein hatgoffa yn ystod helyntion Awst 2011 fod busnesau hefyd yn diodef oherwydd troseddu ac y dylent fod â hawl i gael y wybodaeth a'r cymorth y mae ei angen arnynt yn dilyn y troseddu. Mae'r Cod drafft yn cynnwys pennod ar wahân ar gyfer busnesau sydd wedi diodef oherwydd trosedd, gan gynnwys cynnig a fydd yn galluogi busnesau o bob maint i wneud datganiad effaith er mwyn i'w llais gael ei glywed yn iawn.
19. Nid yw'r broses bresennol ar gyfer cwyno o dan y Cod Dioddefwyr yn rhoi dull effeithiol ar gyfer unioni cam i ddiodefwyr pan fydd pethau'n mynd o

chwith. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond 32%<sup>5</sup> o ddiodefwyr yr arweiniodd eu hachos at gyhuddiad oedd yn cofio cael gwybod sut i gwyno. O hyn ymlaen, bydd yn rhaid i asiantaethau cyfiawnder troseddol roi gwybodaeth i ddiodefwyr am sut i gwyno ar gais, a darparu ymateb o sylwedd i unrhyw gŵyn a dderbynnir. Am y tro cyntaf, asiantaethau cyfiawnder troseddol, nid diodefwyr, fydd yn gyfrifol am ailgyfeirio cwynion i'r asiantaeth briodol. Dyma ran o'r gwaith ehangach y bydd y Cod Diodefwyr newydd yn ei gefnogi i wella'r cydweithrediad rhwng asiantaethau drwy'r system cyfiawnder troseddol i sicrhau nad oes dim diodefwyr yn cael eu hanghofio.

20. Mae ein gwaith i wella'r broses gwyno ar gyfer diodefwyr o dan y Cod yn rhan o'n agenda diwygio ehangach ar gyfer y SCT. Ei nod yw gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y SCT a gwella atebolrwydd a thryloywder ar gyfer diodefwyr. Y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn rydym yn bwriadu ystyried ffyrdd eraill o wella'r broses o unioni cam yng nghyswllt diodefwyr.
21. Rydym hefyd am y tro cyntaf yn cyflwyno Cyfiawnder Adferol i'r Cod diwygiedig ar gyfer pobl sydd wedi diodef dan law troseddwy sy'n oedolion. Mewn astudiaeth flaenorol a oedd yn ystyried dull Cyfiawnder Adferol o weithredu cyn ac ar ôl dedfrydu, cafwyd cyfradd boddhad diodefwyr o 85%<sup>6</sup> yng nghyswllt cynadleddau Cyfiawnder Adferol a 14%<sup>7</sup> o ostyngiad yn amllder cyfraddau aildroseddu. Bydd y Cod diwygiedig yn cynnwys hawl i ddiodefwyr ofyn am Gyfiawnder Adferol ac i asiantaethau cyfiawnder troseddol gynnig Cyfiawnder Adferol i'r rhai sydd wedi diodef trosedd dan law troseddwy sy'n oedolion, a'u cyfeirio at wybodaeth am y broses, lle mae'r broses ar gael a chyda'r rhagofalon priodol.
22. Anelir yr ymgynghoriad hwn at yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb mewn gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i bawb sydd wedi diodef oherwydd trosedd yng Nghymru a Lloegr. Mae Cod diwygiedig drafft wedi'i atodi i'r ymgynghoriad hwn. Bydd sylwadau ar y Cod yn cael eu gwerthfawrogi, a hefyd adborth ynghylch sut y gallwn roi gwybodaeth am y Cod diwygiedig yn y ffordd fwyaf effeithiol.
23. Ar ôl ymgynghori, bwriadwn gyhoeddi'r Cod diwygiedig yn yr haf. Rydym yn disgwyl cyflwyno offeryn statudol er mwyn gallu dod â'r Cod diwygiedig i rym yn yr hydref. Bydd hyn yn gadael i asiantaethau cyfiawnder troseddol ddiweddar'u canllawiau gweithredol.

---

<sup>5</sup> Franklyn (2012) Satisfaction and willingness to engage with the Criminal Justice System.

<sup>6</sup> Shapland, J., Atkinson, A., Atkinson, H., Chapman, B., Dignan, J., Howes, M., Johnstone, J., Robinson, G. a Sorsby, A. (2007) Restorative justice: the views of victims and offenders. Trydydd adroddiad y gwerthusiad o'r tri chynllun. Cyfres Ymchwil 3/07 y Weinyddiaeth Cyfiawnder

<sup>7</sup> Papur Gwyrd y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2010) - Adroddiad Tystiolaeth. Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwy yn Effeithiol

24. Rydym yn cynnal ymgynghoriad chwe wythnos â ffocws gan ei fod yn adeiladu ar yr ymgynghoriad ehangach '*Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion*' a gynhaliwyd y llynedd ac ymgysylltiad cyn ymgynghori ag asiantaethau cyfiawnder troseddol a chyrrff cefnogi diodefwyr.

## Y Cynigion

### Hawliau Dioddefwyr

25. Mae'r Cod Dioddefwyr presennol yn fwy o lawlyfr arweiniad ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol na llawlyfr sy'n canolbwyntio ar ddiodefwyr. Bydd gwella'r Cod yn helpu i ddatblygu gwasanaeth mwy hyblyg a fydd yn ymateb i anghenion penodol holl ddiodefwyr trosedd.
26. Gall y system cyfiawnder troseddol ymddangos yn ddryslyd ac yn anodd canfod eich ffordd drwyddi. Gall diodefwyr deimlo nad ydynt yn gwybod at bwy i droi. Bwriadwn osod allan pa wybodaeth, gwasanaethau a chymorth y mae gan ddiodefwyr hawl iddynt ar bob cam o'u taith drwy'r system cyfiawnder troseddol. Er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o'r broses, rydym wedi cynnwys diagram llif o daith y diodefwyr yn y Cod diwygiedig.
27. Bydd gan bob diodefwyr hawl i lefel sylfaenol o wasanaeth o dan y Cod diwygiedig. Ond, mewn oddeutu 80%<sup>8</sup> o achosion, dywed diodefwyr nad ydynt eisiau dim gwybodaeth, cyngor na chefnogaeth oddi wrth y wladwriaeth nac oddi wrth ffynonellau eraill. Felly, mae'n hanfodol canolbwyntio adnoddau ar y rheini sydd wirioneddol mewn angen. Ar hyn o bryd dim ond i ddiodefwyr bregus a'r rhai sy'n cael eu bygwth y mae'r Cod presennol yn darparu gwasanaeth estynedig, ac, ar gamau penodol yn y broses, i berthnasau sydd wedi dioddef profedigaeth. Yn y Cod diwygiedig, rydym yn bwriadu darparu gwasanaeth estynedig i dri chategori o ddiodefwyr sydd fwyaf mewn angen: diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr bregus neu ddiodefwyr sy'n cael eu bygwth, a'r diodefwyr sy'n cael eu targedu'n fwyaf cyson. Diffinnir y categorïau hyn yn y cyflwyniad i'r Cod ym mharagraffau 22 i 27.
28. Cafodd y categorïau eang hyn eu hamlinellu am y tro cyntaf yn yr ymgynghoriad '*Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion*'. Yn yr ymgynghoriad hwnnw, roedd y categori cyntaf yn cael ei ddisgrifio fel diodefwyr troseddau difrifol. Mae troseddau'n effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd, ac felly rhaid cymryd pob trosedd o ddifrif pan hysbysir yr heddlu amdanynt. Ond, rydym eisiau i wasanaethau ar gyfer diodefwyr

---

<sup>8</sup> Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yr adroddiad ar ddod. Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) 2007/08 a 2008/09 – y blynyddoedd olaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. Arolwg diodefwyr wyneb yn wyneb yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr lle gofynnwyd i bobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr am eu profiadau o amrywiaeth o droseddau personol a throseddau yn erbyn y cartref. Nid yw'n cynnwys rhai mathau o drosedd, megis twyll, troseddau yn erbyn adeiladau masnachol, a dynladdiad. Nid yw'r data a gyflwynir yma yn cynnwys plant o dan 16 oed; nid yw'r amcangyfrif hwn ychwaith yn cynnwys diodefwyr trais rhywiol



ganolbwyntio ar y troseddau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf difrifol ar ddiodefwyr.

29. Rydym yn cadw'r gwasanaeth estynedig ar gyfer pob diodefwr bregus a'r diodefwyr sy'n cael eu bygwth. Rhaid gwneud hyn er mwyn cadw'r cysylltiad â'r sail statudol ar gyfer diodefwyr bregus neu ddiodefwyr sy'n cael eu bygwth yng nghyswllt mesurau arbennig ar gyfer rhoi tystiolaeth mewn llys. Yr unig newid yn y categori hwn yw codi'r oedran o 17 i 18 oed ar gyfer y rheini sy'n cael eu hystyried yn fregus yn awtomatig.
30. Bydd y categorïau hyn yn hyblyg ac yn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio'u barn a'u crebwyll wrth asesu anghenion. Gall diodefwyr fod mewn mwy nag un categori a bydd asesiadau bob amser yn ystyried barn y diodefwr. Hefyd, gall effaith trosedd newid dros amser ac mae'n rhaid i ymarferwyr o dan y Cod roi gwasanaeth estynedig i ddiodefwyr os bydd eu hanghenion yn newid.
31. Credwn mai cyfeirio amserol wedi'i dargedu at wasanaethau cymorth yw'r allwedd i helpu diodefwyr trosedd i ymdopi, a, hyd y bo modd, gwella. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio diodefwyr at wasanaeth cwnsela a chymorth emosiynol sydd, yn ein barn ni, yn gallu bob o gymorth enfawr i'r diodefwyr mwyaf bregus a diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol. Dyna pam yr ydym wedi cynnwys hawl yn y Cod diwygiedig i'r diodefwyr hyn gael eu cyfeirio at wasanaeth therapi cyn ac ar ôl y treial, yn dilyn trafodaeth gyda'r ymarferwyr sy'n delio â'u hachos.
32. Mae'r Cod presennol yn darparu ar gyfer rhoi diweddariadau misol i bob diodefwr pan nad oes neb wedi'i ddal mewn achos sy'n destun ymchwiliad. Credwn fod y Cod cyfredol yn rhy ragnodol ac yn lle hyn byddai'n well gan lawer o ddiodefwyr gytuno ar amseroedd mwy priodol. Rydym yn cynnig y bydd gan ddiodefwyr hawl i dderbyn gwybodaeth gan asiantaethau ar gamau allweddol yn y broses ac i drafod gyda'r asiantaethau sy'n gysylltiedig pa mor aml yr hoffent dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr ymchwiliad. Bydd hyn yn sicrhau bod darparu gwybodaeth yn cael ei dywys gan anghenion y diodefwr.

#### **Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

- C1. Ydych chi'n teimlo mai'r dull sy'n cael ei gymryd i ailstrwythuro'r Cod yw'r un iawn?**
- C2. Ydych chi'n credu bod y categorïau pobl sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod yn briodol?**

### **Dyletswyddau ar gyrff ac asiantaethau cyfiawnder troseddol**

33. Mae'r Cod Dioddefwyr yn gosod dyletswyddau ar y gyrff a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol a restrir yn y cyflwyniad i'r Cod, sydd â swyddogaethau yng nghyswllt diodefwyr ymddygiad troseddol neu'r system cyfiawnder troseddol.
34. Rydym yn gwybod bod llawer o wasanaethau pwysig yn cael eu darparu i ddiodefwyr gan fudiadau gwasanaethau i ddiodefwyr gwirfoddol sy'n aml yn gweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r Llywodraeth a chyrrff comisiynu eraill yn defnyddio contractau a'r fframwaith comisiynu i gaffael gwasanaethau ar y lefel a'r safon ofynnol, tra mae'r Cod yn canolbwyntio ar wybodaeth, asesu a gofynion cyfeirio at y gwasanaethau hyn.
35. Mae'r Cod presennol yn cynnwys nifer mawr o gyfarwyddiadau sy'n cael eu fframio mewn ffordd sy'n ei wneud yn fwy anhyblyg a chaeth. Dyna pam y mae'r Cod diwygiedig yn galluogi asiantaethau cyfiawnder troseddol i deilwra gwasanaethau yn ôl angen unigol, megis cytuno ynghylch pa mor aml y byddant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu hachos. Mae'r Cod diwygiedig wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu arfer cyfredol, ond mae hefyd yn rhoi mwy o le i arloesi ac i arferion gorau ffynnu.
36. Mae gan yr heddlu ddyletswydd o dan y Cod diwygiedig i gynnal "asesiad o anghenion" gyda phob diodefwyr troseddol i ganfod pa gymorth neu wybodaeth y mae ei hangen arnynt i'w helpu i ymdopi a gwella. I rai diodefwyr, gall yr angen hwn fod yn fach iawn. I eraill, bydd yr angen yn fwy sylweddol. Gall y rheini sy'n penderfynu peidio â derbyn unrhyw wasanaethau ddewis derbyn y gwasanaethau hyn yn ddiweddarach ar unrhyw adeg heb dderbyn gwybodaeth neu ddiweddariadau diangen am yr achos yn yr interim.
37. Mae'r Cod diwygiedig hefyd yn cynnwys rhai dyletswyddau ychwanegol a roddir ar asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n cael eu disgrifio dan benawdau adran penodol. Fodd bynnag, fel yr adlewyrchir yn ein Hasesiad o Effaith, nid ydym yn credu y bydd y dyletswyddau ychwanegol hyn yn rhy feichus ar yr asiantaethau perthnasol nac yn gofyn am adnoddau gormodol. Mae hyn yn wir oherwydd bod llawer o'r dyletswyddau'n diweddarau'r Cod i adlewyrchu arferion cyfredol, megis y ddyletswydd i ymestyn gwasanaethau i blant sy'n ddiodefwyr i bobl ifanc o dan 18 oed yn hytrach na phobl ifanc o dan 17 oed, neu roi'r brif ystyriaeth i fuddiannau gorau'r plentyn.
38. Rydym yn credu bod y dyletswyddau ar asiantaethau a sefydliadau sy'n dod o dan y Cod yn rhai cytbwys a chymesur. Bydd y dyletswyddau ar y darparwyr gwasanaeth hyn yn sicrhau bod y diodefwyr yn cael y lefel briodol o gefnogaeth ar yr amser iawn ac yn rhoi'r hyblygrwydd gofynnol i alluogi asiantaethau i ganolbwyntio'u hadnoddau ar y bobl sydd fwyaf mewn angen.

### **Cwestiwn ar gyfer ymgynghori**

**C3. Ydych chi'n credu mai'r dyletswyddau sy'n cael eu rhoi ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn y Cod diwygiedig yw'r rhai iawn? Darparwch sylwadau os gwelwch yn dda.**

### **Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

39. Ym mis Tachwedd 2012, cafodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hethol ymhob ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr y tu allan i Lundain. Ar hyn o bryd mae eu prif gyfrifoldebau'n cynnwys gosod blaenoriaethau plismona'r heddlu lleol (gan ymgynghori â diodefwyr trosedd wrth wneud hynny) a'i gyllideb, gweithio gyda phartneriaid lleol i leihau troseddu, a dal y prif gwnstabl lleol i gyfrif am berfformiad yr heddlu. Bwriad y Llywodraeth yw y bydd y Comisiynwyr o 2014 ymlaen yn gyfrifol hefyd am gomisiynu gwasanaethau lleol i ddiodefwyr.
40. Nid yw'r Comisiynwyr wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y rhestr o ddarparwyr gwasanaeth y mae'n rhaid iddynt ddarparu gwasanaethau o dan y Cod Diodefwyr diwygiedig. Ond, credwn fod cyflwyno'r Comisiynwyr yn rhoi cyfle i gryfhau'r cydweithio ar draws y system cyfiawnder troseddol. Yn benodol, credwn y gallai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu fod â rôl bwysig yn monitro a goruchwyllo'r dyletswyddau o dan y Cod a gyflawnir gan yr heddlu lleol yn eu hardaloedd. Rydym yn croesawu eich sylwadau ynghylch ymhle y gall y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu helpu i ddarparu gwasanaethau o dan y Cod Diodefwyr.

### **Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

**C4 (a). Ydych chi'n credu y dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gael eu cynnwys yn y Cod diwygiedig? Rhowch resymau os gwelwch yn dda**

**C4 (b). Os ydych chi, pa ddyletswyddau ddylent eu cyflawni ac ar ba gamau yn y broses cyfiawnder troseddol y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gael eu cynnwys?**

## Datganiad Personol Dioddefwr

41. Cafodd y Datganiad Personol Dioddefwr (DPD) ei dreialu yn 1996 (yr enw gwreiddiol arno oedd y Datganiad Effaith ar Ddiodefwyr). Fe'i cyflwynwyd fel y DPD ledled Cymru a Lloegr ym mis Hydref 2001. Datganiad yw'r DPD a fydd yn cael ei lunio gan ddiodefwyr i esbonio sut y mae trosedd wedi effeithio arnynt. Fel arfer, mae'r datganiad yn cael ei wneud gan y diodefwyr yn ystod sgwrs gynnar gyda'r heddlu ar yr un pryd ag y bydd unrhyw ddatganiad tystiolaeth yn cael ei roi, er y gellir ei wneud ar unrhyw adeg yn ystod yr achos.
42. Prif bwrpas y datganiad yw rhoi llais i ddiodefwyr yn y broses cyfiawnder troseddol a'r achos troseddol pan fydd achos yn mynd i'r llys. Pwrpas cyfreithiol y Datganiad yw rhoi darlun cywir o effaith y trosedd ar y diodefwyr ac a fydd wedyn yn gallu cael ei ystyried wrth ddedfrydu'r troseddwr perthnasol. Gellir ei ddefnyddio hefyd wrth wneud penderfyniadau am roi mechnïaeth.
43. Gellir gwneud DPD ar wahân hefyd yng nghyswllt troseddwr y bydd Bwrdd Parôl yn penderfynu a fyddant yn cael eu rhyddhau neu beidio, er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am effaith y trosedd i Banel y Bwrdd Parôl.
44. Dyma'r anawsterau ar hyn o bryd gyda'r DPD:
  - Ychydig yn cael cynnig gwneud y datganiad – dim ond mewn 9% o'r holl ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt yr oedd diodefwyr yn cofio cael cynnig y cyfle i wneud DPD.<sup>9</sup>
  - Diffyg integreiddio rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, efallai na fydd y DPD yn cael ei dderbyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn ddigon buan iddo gael ei gynnwys yn y ffeil oherwydd cyflymder prosesu achosion llys.
  - Dryswch ynghylch pwrpas y DPD a sut y mae'n cael ei ddefnyddio. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd nad yw diodefwyr yn aml yn ymwybodol fod y DPD yn cael ei roi i dîm yr amddiffyniad os bydd yr achos yn cyrraedd y llys ac efallai yn cael ei roi ar y cyfryngau.

---

<sup>9</sup> 07/08 a 08/09 Crime Survey for England and Wales analysis. (Franklyn (2012) Satisfaction and willingness to engage with the Criminal Justice System). Mae dwy ffynhonnell wahanol yn darparu data ar ganran y diodefwyr a oedd yn cofio cael cynnig y cyfle i wneud DPD: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) ac Arolwg Profiadau Tystion a Dioddefwyr (WAVES). Mae'r ddau arolwg yn delio â gwahanol gategoriâu o ddiodefwyr a digwyddiadau ac mae'r CSEW yn delio ag ystod ehangach o ddiodefwyr a throseddau na WAVES. Felly mae'r amcanestyniadau ar gyfer pa mor aml y cynigir DPD yn wahanol rhwng y 2 fesur; gyda'r CSEW (gan ddefnyddio data o 2007/08 a 2008/09) yn awgrymu canran sylweddol is (9%) o ran y gyfran a gafodd gynnig DPD nag arolwg mwyaf diweddar WAVES yn 2009/10 (43%).

45. Weithiau, mae diodefwyr yn teimlo nad yw eu barn yn cael ei ystyried yn y system cyfiawnder troseddol. Efallai y bydd eu teimladau a'u meddyliau ynghylch sut y mae trosedd wedi effeithio arnynt yn newid dros amser. Trwy gynnwys y DPD yn y Cod Diodefwyr, y gobaith yw y bydd mwy yn cael cynnig gwneud Datganiad ac y bydd mwy yn ei wneud, a chryfhau llais y diodefwr yn y llys.
46. Yn yr adran ar y DPD yn y Cod newydd bydd datganiad o bwrpas clir i wella dealltwriaeth diodefwyr o'r DPD a sut y bydd eu datganiad yn cael ei ddefnyddio yn y llys os ceir y sawl a amheuir yn euog. Mae'n bwysig fod diodefwyr a fydd yn ymddangos mewn llys yn deall bod y llys yn fforwm agored a bod yr hyn y byddant yn ei ddweud, oni nodir fel arall gan y llys, yn wybodaeth gyhoeddus ac efallai y bydd yn cael ei gynnwys yn y wasg ac mewn cyfryngau cymdeithasol. Mae datganiadau personol diodefwyr a datganiadau effaith ar y gymuned sy'n cael eu darllen yn uchel mewn llys yn cael eu clywed gan y cyhoedd a'r wasg. Mae hyn yn cael ei adolygu fel rhan o agenda diwygio cyfiawnder troseddol ehangach y Llywodraeth.
47. Bydd y DPD ar gael i bob diodefwr sy'n gwneud datganiad tyst lle rhoddir tystiolaeth. Ond bydd diodefwyr y troseddau mwyaf difrifol, diodefwyr bregus a'r rheini sy'n cael eu bygwth a'r diodefwyr sy'n cael eu targedu'n fwyaf cyson yn gallu gwneud un hyd yn oed os na fyddant yn gwneud datganiad tyst o'r fath. Bydd hyn yn gadael i'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill ganolbwyntio'r cymorth lle mae'r angen fwyaf ac ar yr achosion hynny lle mae siawns realistig o gael euogfarn.
48. Bydd hyblygrwydd ar gael yng nghyswllt cymryd y DPD, gan gynnwys yr opsiwn i'r tyst ei gwblhau ei hun neu ei gyflwyno ar-lein lle gellir gwneud hynny. Oherwydd datblygiadau i'r system "track my crime" mae modd cwblhau'r DPD ar-lein mewn rhai ardaloedd.<sup>10</sup> Er mai'r heddlu fel arfer sy'n cymryd DPD, mae adran ddrafft y Cod diwygiedig yn caniatáu i asiantaethau cyfiawnder troseddol neu sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i ddiodefwyr gymryd y DPD lle mae'r heddlu wedi'u comisiynu i wneud hynny. Bydd hyn yn cynyddu'r nifer sy'n cael cynnig DPD ar bob cam o daith y diodefwr drwy'r system cyfiawnder troseddol, gan roi cyfle i ddiodefwyr ychwanegu at eu datganiad neu ei esbonio'n well yn ddiweddarach yn y broses pan fydd eu teimladau neu eu canfyddiad o drosedd wedi newid efallai.
49. Bydd y Llywodraeth yn gweithio rhagor gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol i lunio arweiniad ar gymryd y DPD ar ôl i fersiwn derfynol y Cod gael ei chyflwyno gerbron y senedd.

---

<sup>10</sup> O'r prosiectau hyn, peilot "track my crime" heddlu Avon a Gwlad yr Haf sydd wedi datblygu orau.

## **Datganiadau Effaith ar y Gymuned**

50. Mae Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn cael eu llunio gan yr heddlu i ddangos effaith troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y gymuned honno. Mae'r heddlu'n casglu gwybodaeth oddi wth y gymuned leol am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal ac yn ei defnyddio fel sail ar gyfer cynnwys y datganiad. Pwrpas y datganiad yw galluogi penderfyniadau gwell sy'n seiliedig ar wybodaeth am y cyddestun lleol i gael eu cymryd. Gellir eu defnyddio ar draws y system cyfiawnder gan gynnwys pan fydd achos yn cael sylw y tu allan i'r llys er mwyn codi ymwybyddiaeth y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch yr achos am yr effaith y mae'r troseddu wedi'i chael ar y gymuned.
51. Mae Datganiadau Effaith ar y Gymuned wedi cael eu treialu mewn 42 ardal ac mae adroddiadau anecdotaidd yn dangos iddynt fod yn llwyddiannus yn dwyn sylw at droseddu sydd wedi bod yn fwrn ar gymunedau lleol. Er enghraifft, mae Heddlu Manceinion Fwyaf wedi defnyddio Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn llwyddiannus fel rhan o'u cynlluniau ehangach i fynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â gynnu yn y gymuned. Nid ydym wedi cynnwys Datganiadau Effaith ar y Gymuned yn y Cod diwygiedig. Ond, rydym yn bwriadu annog heddluoedd lleol yng Nghymru a Lloegr i ymestyn y defnydd o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned yn eu hardal leol.

### **Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

- C5. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Datganiad Personol Dioddefwr gael ei gynnwys mewn Cod Dioddefwyr diwygiedig?**
- C6. Ydych chi'n teimlo y dylid annog heddluoedd i wneud mwy o ddefnydd o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned?**
- C7 (a) Ydych chi'n teimlo bod datganiadau effaith ar y gymuned yn ffordd effeithiol o ganfod y problemau sy'n wynebu cymunedau?**
- (b) Os ydych chi, sut gellid annog heddluoedd i wneud rhagor o ddefnydd o'r Datganiad Effaith ar y Gymuned?**
- (c) Os na, sut gellid gwella'r datganiadau effaith ar y gymuned?**

## Busnesau

52. Gall busnesau hefyd ddiodef oherwydd troseddau a dylent gael yr hawl i dderbyn y wybodaeth a'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt ar ôl trosedd. Mae'r Cod Dioddefwyr presennol yn datgan yn glir bod gan fusnesau hawl i dderbyn gwasanaethau o dan y Cod gyhyd â'u bod yn rhoi manylion person cyswllt i ddarparwr y gwasanaeth. Rydym yn bwriadu adeiladu ar hyn drwy gynnwys adran ar wahân ar fusnesau sy'n diodef oherwydd trosedd.

## Datganiadau Effaith ar gyfer Busnesau

53. Ar hyn o bryd, dim ond cynrychiolwyr o fusnesau bach sy'n gallu gwneud Datganiad Personol Dioddefwr, sy'n golygu nad yw busnesau canolig a mawr yn gallu esbonio'r effaith y mae trosedd wedi'i chael arnynt. Bydd y Cod diwygiedig yn galluogi busnesau o bob maint i wneud datganiad effaith (DPD i fusnesau i bob pwrpas). Bydd hyn yn helpu busnesau i ddisgrifio'n llawn yr effaith y mae trosedd wedi'i chael arnynt – gan roi sylw'n uniongyrchol i'r ymatebion a dderbyniasom oddi wrth y sector busnes i'n hymgyngoriad '*Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion*' y llynedd.
54. Bydd y datganiad effaith yn esbonio sut y mae trosedd wedi effeithio ar y busnes, yn economaidd neu mewn unrhyw ffordd arall. Nid yw gwneud Datganiad Effaith yn rhwystro diodefwr unigol, cyflogai er enghraifft, rhag gwneud Datganiad Personol Dioddefwr ar wahân ar gyfer yr un digwyddiad.
55. Nid ydym yn cynnig y dylai'r heddlu'n bersonol gofnodi'r datganiad effaith gan y busnes dan sylw. Yn hytrach, dylai'r datganiad effaith fod ar gael ar gyfer ei lwytho i lawr, ei gwblhau gan y busnes ei hun a'i ddychwelyd dros yr e-bost neu drwy'r post. Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol a grwpiau busnes i ddatblygu arweiniad ar sut i gyflwyno datganiad effaith ar gyfer busnesau unwaith y bydd y Cod wedi'i gyflwyno gerbron y senedd.

## Cwestiynau ar gyfer ymgynghori

- C8. Ydych chi'n cytuno y dylai pob busnes gael yr hawl i wneud datganiad effaith i esbonio sut y mae trosedd wedi effeithio arnynt?**
- C9. Ydych chi'n credu y bydd y cynllun hwn o fudd i fusnesau?**
- C10. Ydych chi'n credu y dylai'r datganiad hwn gael ei ymestyn i sefydliadau eraill, elusennau er enghraifft?**

## Cyfiawnder Adferol

56. Yn ymateb Gorffennaf 2012 i'r papur '*Gwneud pethau'n iawn i ddioddefwyr a thystion*', gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad i gynnwys Cyfiawnder Adferol yn y Cod ar gyfer pobl sydd wedi dioddef dan law troseddwr sy'n oedolion, yn ogystal â throseddwr ifanc, am y tro cyntaf.
57. Mae Cyfiawnder Adferol yn galluogi'r dioddefwr a'r troseddwr, neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â throsedd, i geisio dod o hyd i ffordd gadarnhaol o symud ymlaen a, lle bo modd, gall Cyfiawnder Adferol gyfrannu at unioni'r niwed. Mewn astudiaeth flaenorol a oedd yn ystyried dull Cyfiawnder Adferol o weithredu cyn ac ar ôl dedfrydu, cafwyd cyfradd boddhad dioddefwyr o 85% yng nghyswllt cynadleddau Cyfiawnder Adferol a 14% o ostyngiad yn amllder cyfraddau aildroseddu.<sup>11</sup> Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer dull cynadledda Cyfiawnder Adferol. Y nod yw grymuso dioddefwyr drwy roi llais iddynt, lleihau eu hofn a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu 'digolledu' am y niwed a achoswyd iddynt. Mae Cyfiawnder Adferol hefyd yn ceisio sicrhau bod y sawl a gyflawnodd y trosedd yn ymwybodol o ganlyniadau'i weithredoedd.
58. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth Gynllun Gweithredu ar gyfer Cyfiawnder Adferol<sup>12</sup>. Ei nod yw gwella'r gwasanaethau Cyfiawnder Adferol sydd ar gael i ddioddefwyr a sicrhau bod y rhain wedi'u hachredu i'r safonau priodol. Yr amcanion yw sicrhau bod dioddefwyr yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn am Gyfiawnder Adferol ar unrhyw gam yn y broses cyfiawnder troseddol a sicrhau bod y broses Cyfiawnder Adferol yn cael ei thywys bob amser gan y dioddefwr.
59. Trwy gynnwys Cyfiawnder Adferol yn y Cod Dioddefwyr gobeithiwn symud tuag at gyflawni'r amcanion hyn drwy godi ymwybyddiaeth am Gyfiawnder Adferol ymysg dioddefwyr trosedd. Bydd y Cod diwygiedig yn cynnwys adran ar wahân a fydd yn darparu gwybodaeth am Gyfiawnder Adferol i'r rhai sydd wedi dioddef dan law troseddwr sy'n oedolion. Bydd hwn yn rhoi esboniad syml o Gyfiawnder Adferol i ddioddefwyr, gan bwysleisio ei fod yn wirfoddol a bod yn rhaid i'r dioddefwr a'r troseddwr gytuno iddo. Bydd y disgrifiad hwn hefyd yn dweud wrth ddioddefwyr na fydd Cyfiawnder Adferol yn briodol nac ar gael ymhob achos.
60. Bydd gan yr heddlu a Thimau Troseddwr Ifanc ddyletswydd i roi gwybodaeth ar Gyfiawnder Adferol i ddioddefwyr, a'u cyfeirio at y broses, lle bydd ar gael. Bydd ganddynt ddyletswydd i asesu pa mor addas yw Cyfiawnder Adferol ar sail bregusrwydd y dioddefwr a/neu sensitifrwydd yr achos. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhagofalon gofynnol yn eu lle ar gyfer y dioddefwr, yn arbennig dioddefwyr trais domestig neu drosedd rhywiol neu drais. Bydd gan yr heddlu ddyletswydd hefyd i sicrhau, lle mae Cyfiawnder Adferol ar gael, y darperir hwyluswyr a fydd wedi cael eu

<sup>11</sup> [http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.justice.gov.uk/restorative-justice-report\\_06-08.pdf](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http://www.justice.gov.uk/restorative-justice-report_06-08.pdf)

<sup>12</sup> <http://www.justice.gov.uk/publications/policy/moj/restorative-justice-action-plan>



hyfforddi'n briodol a bod y mesurau diogelwch gofynnol yn cael eu rhoi ar waith fel nad yw'r dioddefwr yn dod yn ddioddefwr eto oherwydd y broses Cyfiawnder Adferol.

**Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

- C11. Ydych chi'n cytuno y dylai Cyfiawnder Adferol gael ei gynnwys yn y Cod Dioddefwyr lle mae'r troseddwr dros 18 oed?**
- C12. Ydych chi'n credu y bydd yr adran ar Gyfiawnder Adferol yn y Cod diwygiedig yn helpu i gefnogi gwaith ehangach i wella ymwybyddiaeth dioddefwyr am Gyfiawnder Adferol?**
- C13 (a). Yn eich barn chi, faint o gynnydd fydd yn y defnydd o Gyfiawnder Adferol yn sgil y diwygiadau i'r Cod?**
- C13 (b). Yn eich barn chi, pa fathau penodol o ymyriad Cyfiawnder Adferol fydd yn cynyddu?**

## Os aiff pethau o chwith

61. Mae pob corff ac asiantaeth cyfiawnder troseddol a restrir fel 'darparwyr gwasanaeth' yn y cyflwyniad i'r Cod yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai'r pwyslais a roddir ar hawliau diodefwyr wella dealltwriaeth diodefwyr a gwella lefelau cydymffurfio darparwyr gwasanaethau â'r Cod.
62. Fodd bynnag, efallai y ceir achlysuron lle mae diodefwyr yn teimlo bod angen cwyno am y gwasanaethau y mae wedi'u derbyn. Dyna pam yr ydym yn credu bod cynnwys proses gwyno yn y Cod yn bwysig iawn.
63. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad '*Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion*' yn nodi nad yw'r broses bresennol a geir yn y Cod ar gyfer cwyno yn glir ac nad yw'n darparu dull effeithiol ar gyfer unioni cam pan fydd pethau'n mynd o chwith.
64. Rydym wedi ystyried nifer o ddiwygiadau a awgrymwyd i'r broses gwyno gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, yn arbennig y cynnig i sefydlu un pwynt cyswllt ar gyfer diodefwyr ar ffurf swyddfa ganolog ar gyfer cwynion diodefwyr. Wrth inni ystyried y cynnig am swyddfa ganolog ar gyfer cwynion diodefwyr, ein barn gychwynol yw y byddai'r goblygiadau posibl o ran adnoddau'n sylweddol, gan gynnwys costau staffio, gweinyddu ac adeiladau (rhent a chynnal a chadw). Rydym wedi ymrwymo i wneud rhagor o welliannau yn y maes hwn a gwahoddwn sylwadau yn yr ymgynghoriad hwn ynghylch sut y gellir sicrhau dull mwy effeithiol o unioni cam. Rydym yn gweithio ar hyn fel blaenoriaeth fel rhan o'n agenda ehangach ar gyfer diwygio cyfiawnder troseddol.
65. O ran gwella'r broses gwyno yn y Cod Diodefwyr newydd, rydym yn cynnig y dylai pob darparwr gwasanaeth o dan y Cod feddu ar broses gwyno glir y gall diodefwyr ei defnyddio i gwyno. Rhaid i asiantaethau roi gwybodaeth i ddiodefwyr am eu proses gwyno ar gais ynghyd â manylion cysylltu'r sawl sy'n delio â'u cwyn.
66. Nid ydym wedi darparu manylion cysylltu yn y Cod gan nad ydym am i'r Cod ddyddio'n gyflym neu fod yn rhy ragnodol. Yn y Cod presennol, y diodefwyr sy'n gyfrifol am geisio canfod yr asiantaeth iawn i gysylltu â hi ynghylch ei gŵyn. Mae'r Cod diwygiedig yn newid y drefn, gyda'r cyfrifoldeb bellach ar yr asiantaethau i sicrhau bod pob cwyn yn cael ymateb boddhaol, pa ran bynnag o'r system cyfiawnder troseddol y mae'r gŵyn yn gysylltiedig â hi.
67. Dan y Cod diwygiedig, mae'n rhaid i'r asiantaeth sy'n derbyn y gŵyn anfon cydnabyddiaeth amserol at y diodefwyr. Rhaid i asiantaethau ddelio'n barchus ac yn sensitif â chwyn. Rhaid iddynt ddarparu ymateb llawn a phrydlon sy'n hysbysu'r diodefwyr am ganlyniad eu cwyn. Bydd y mesurau hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o gwynion yn mynd ar goll a diodefwyr ddim yn cael ymateb.

68. Fel dan y Cod presennol, gall diodefwyr sy'n anfodlon â chanlyniad y gŵyn a dderbyniwyd drwy drefn gwyno fewnol asiantaeth barhau i geisio rhagor o gyfiawnder drwy gwyno wrth yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy eu Haelod Seneddol.
69. Credwn y gallai tryloywder lleol yng nghyswllt y broses gwyno ymysg asiantaethau a chyrrff chwarae rhan bwysig yn gwella tryloywder y system cyfiawnder troseddol i ddiodefwyr a'r cyhoedd. Byddwn yn annog asiantaethau i ddarparu adroddiadau am eu perfformiad yn ymateb i gwynion. Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd eraill, ochr yn ochr â'r Cod diwygiedig, o wella'r gwaith o fonitro lefelau cydymffurfio â'r Cod ymysg asiantaethau cyfiawnder troseddol a chymunedau lleol a'r ffordd orau o ddefnyddio hyn i wella perfformiad a gwella profiad y diodefwyr. Er enghraifft, fel y trafodwyd yn Rhan 2, rydym yn ystyried a allai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gyfrannu at fonitro cwynion ar y lefel lleol gan gofio eu bod hwythau'n debygol o dderbyn cwynion gan ddiodefwyr a fyddai'n dod o dan y Cod. Byddem yn croesawu eich barn am ddulliau lleol a chenedlaethol posibl o weithredu fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

#### **Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

- C14. Ydych chi'n credu y bydd y system gwyno yn y Cod diwygiedig yn darparu gwasanaeth gwell i ddiodefwyr? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.**
- C15. Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o fonitro cydymffurfiaid a pherfformiad asiantaethau a sefydliadau o dan y Cod? A chan bwy? A ddylai hyn gael ei gyflawni'n lleol neu'n genedlaethol?**
- C16. Yn ogystal â'r gwelliannau a ddisgrifir yn y Cod, pa ddiwygiadau sy'n ofynnol, yn eich barn chi, i wella'r broses unioni cam ar gyfer diodefwyr?**

## **Plant a Phobl Ifanc (dan 18 oed)**

70. Nid yw'r Cod presennol wedi'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n rhoi digon o ffocws ar blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef oherwydd trosedd ac nid yw'n ddogfen sy'n hawdd i blant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gwarcheidwaid ei defnyddio a'i deall.
71. Wrth ddiwygio'r Cod Dioddefwyr, rydym wedi canolbwyntio ar helpu'r dioddefwyr sydd fwyaf mewn angen. Credwn fod yn rhaid rhoi sylw i effaith troseddu ar blant ac oedolion ifanc yn benodol os ydynt am wella a symud ymlaen gyda'u bywydau. Dyna pam y nodir bod dioddefwyr a thystion ifanc yn arbennig o fregus ac angen cymorth a gwarchodaeth arbennig. Mae'n gwbl briodol y dylai'r Cod siarad yn uniongyrchol â dioddefwyr ifanc fel eu bod yn gwybod yn iawn beth i'w ddisgwyl. Mae angen iddynt wybod pa gymorth sydd ar gael iddynt i ddeall sut y gallai'r cymorth hwn liniaru rhywfaint ar y pryder o fynychu llys a'u helpu i roi eu tystiolaeth orau.
72. Dyna pam yr ydym yn cynnig bod y Cod diwygiedig yn cynnwys adran benodol ar gyfer dioddefwyr o dan 18 oed – ac rydym wedi codi'r oedran o 17 i sicrhau y gall y bobl ifanc hyn fanteisio ar y gwasanaethau estynedig a fydd yn cael eu darparu. Rydym hefyd yn bwriadu nodi'n glir yn y Cod diwygiedig, lle nad yw oed y dioddefwr yn sicr a bod rhesymau dros gredu bod yr unigolyn o dan 18 oed, y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol ragdybio bod yr unigolyn hwnnw o dan 18 oed ac felly â hawl i dderbyn yr hawliau estynedig a nodir yn yr adran ar wahân ar gyfer dioddefwyr o dan 18 oed.
73. Bydd yr adran hon yn cael ei rhannu'n ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn set dryloyw o hawliau sy'n hawdd i blant a phobl ifanc, rhieni a gwarcheidwad eu deall. Mae'r ail ran yn canolbwyntio ar ddyletswyddau asiantaethau cyfiawnder troseddol, fel ei bod yn glir pa wybodaeth a chymorth sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r hawliau ar gyfer dioddefwyr o dan 18 oed. Ar ddechrau ail ran yr adran, rydym yn bwriadu ei gwneud yn glir y bydd yn rhaid i gyrrff ac asiantaethau cyfiawnder troseddol roi'r brif ystyriaeth i fuddiannau gorau'r plentyn bob amser wrth ddarparu gwasanaethau i ddiodefwyr o dan 18 oed.
74. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bwriadwn gynnal gweithgaredd ymarfer ymgynghori pwrpasol a fydd wedi'i dargedu at bobl ifanc ar gyfer ymgysylltu â nhw er mwyn cael eu hymateb i Bennod 2 y Cod newydd ac i wrando ar eu syniadau am sut y gallwn wella'r cymorth a'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig iddynt o dan y Cod.
75. Yn ogystal ag adran benodol yn y Cod, bwriadwn ddatblygu cyhoeddiad EasyRead ar wahân a fydd yn defnyddio iaith syml a chymhorthion gweld wedi'u targedu at bobl ifanc a rhieni plant ifanc. Bydd yr arweiniad ychwanegol hwn ar y Cod Dioddefwyr yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi ar ôl i fersiwn derfynol y Cod gael ei gyflwyno gerbron y Senedd, ar yr un pryd ag y bydd y Cod newydd yn cael ei roi ar waith.

**Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

- C17. Ydych chi'n cytuno y dylid cael adran benodol ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Cod?**
- C18. Ydych chi'n cytuno bod y dyletswyddau ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yng nghyswllt plant a phobl ifanc yn gywir? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**
- C19. Ydych chi'n ystyried bod yr adran hon yn briodol ac yn hawdd ei defnyddio ar gyfer plant a phobl ifanc?**

## Sylwadau clo

76. Rhaid i'r diodefwyr a'r cyhoedd fod â hyder yn y system. Mae angen system arnynt sy'n gweithio'n galetach iddynt, ac maent yn haeddu system o'r fath. Er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid i'r system fod yn fwy ymatebol ac yn haws llywio drwyddi er mwyn sicrhau mai diodefwyr sy'n dod gyntaf. Mae rhoi'r diodefwyr yn gyntaf yn cael ei adlewyrchu yn strwythur, yn ogystal â chynnwys, y Cod diwygiedig sy'n nodi hawliau clir ar gyfer diodefwyr yn y bennod gyntaf un, wedi'u cysylltu â dyletswyddau ar asiantaethau.
77. Un o'r prif sylwadau a gafwyd yng nghyswllt ymgynghoriad '*Gwneud pethau'n iawn i ddiodefwyr a thystion*' y llynedd oedd bod yn rhaid rhoi gwybod i ddiodefwyr am y Cod diwygiedig fel eu bod yn gwybod pa wybodaeth a chymorth y dylent ei dderbyn. Rydym yn bwriadu datblygu arweiniad ategol rhyngweithiol a fydd yn haws fyth ei ddefnyddio i roi gwybod am yr hawliau i ddiodefwyr trosedd yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddiadau ar wahân ar gyfer diodefwyr o dan 18 oed ac ar gyfer diodefwyr ag anableddau neu anawsterau cyfathrebu. Byddem yn croesawu cael sylwadau am y ffordd fwyaf effeithiol o roi gwybod am y Cod diwygiedig a'r arweiniad ategol, yn arbennig drwy ddulliau digidol.
78. Credwn fod y Cod Diodefwyr diwygiedig, sydd wedi'i atodi i'r papur ymgynghori hwn, yn rhoi hawliau cliriach a chryfach i ddiodefwyr a llais cryfach iddynt yn y broses cyfiawnder troseddol. I gyd-fynd â hyn ceir cyfres glir o ddyletswyddau i'w cyflawni gan asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn gwneud yn siŵr fod diodefwyr yn cael y cymorth a'r hawliau y mae eu hangen arnynt ac yn eu haeddu. Bwriadwn ddefnyddio'r cyfnod ymgynghori sydd ar y ffordd i wrando ar farn pobl am y newidiadau arfaethedig i'r Cod ac i ystyried awgrymiadau ynghylch mwy o welliannau y gallwn eu gwneud.

### Cwestiwn ar gyfer ymgynghori

**C20. Sut y gallwn sicrhau bod cynnwys y Cod yn cael ei gyfleu'n effeithiol i ddiodefwyr?**

## **Effeithiau Cydraddoldeb**

79. Ar ddechrau'r ddogfen ymgynghori hon gwnaethom esbonio cyfrifoldebau'r Llywodraeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac rydym yn cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb ar ein cynigion fel rhan o'r ymgynghoriad.

### **Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

- C21. Ydych chi'n credu ein bod wedi nodi'n gywir ystod a hyd a lled effeithiau'r cynigion hyn ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?**
- C22. Os na, ydych chi'n gwybod am unrhyw dystiolaeth nad ydym wedi'i hystyried fel rhan o'n dadansoddiad o gydraddoldeb? Darparwch y dystiolaeth os gwelwch yn dda. Beth yw effaith y dystiolaeth hon ar ein cynigion?**

### **Asesiad o Effaith**

80. Mae asesiad o effaith wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn ac mae ar gael yn [www.justice.gov.uk/consultations](http://www.justice.gov.uk/consultations).
81. Rydym yn ceisio data mwy manwl ar y Datganiad Personol Dioddefwr wrth inni fireinio'n cynigion. Byddem yn croesawu sylwadau'n benodol ar yr amser sydd ei angen ar gyfer cymryd DPD a'r effaith ar sefydliadau cymdeithas sifil os cânt y gwaith o gymryd DPD ar ran yr heddlu.

### **Cwestiynau ar gyfer ymgynghori**

- C23. A oes gennych chi sylwadau yng nghyswllt ein hasesiad o effaith?**
- C24. Allech chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddeall ac asesu rhagor ar yr effeithiau hynny?**
- C25. Faint mae'n ei gymryd i gofnodi DPD a roddir gan ddiodefwyr trosedd?**
- C26. Beth yw'r baich ychwanegol ar sefydliadau cymdeithas sifil os cânt eu contractio i gymryd y DPD ar ran yr heddlu?**

## Holiadur

Byddem yn croesawu ymateb i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn.

### Cwestiynau ar gyfer ymgynghori

<b>C1</b>	<b>Ydych chi'n teimlo mai'r dull sy'n cael ei gymryd i ailstrwythuro'r Cod yw'r un iawn?</b>
<b>C2</b>	<b>Ydych chi'n credu bod y categorïau pobl sydd â hawl i dderbyn gwasanaethau estynedig o dan y Cod yn briodol?</b>
<b>C3</b>	<b>Ydych chi'n credu mai'r dyletswyddau sy'n cael eu rhoi ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn y Cod diwygiedig yw'r rhai iawn? Darparwch sylwadau os gwelwch yn dda.</b>
<b>C4</b>	<b>(a) Ydych chi'n credu y dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gael eu cynnwys yn y Cod diwygiedig? Rhowch resymau os gwelwch yn dda (b) Os ydych chi, pa ddyletswyddau y dylent eu cyflawni ac ar ba gamau yn y broses cyfiawnder troseddol y dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gael eu cynnwys?</b>
<b>C5</b>	<b>Ydych chi'n cytuno y dylai'r Datganiad Personol Dioddefwr gael ei gynnwys mewn Cod Dioddefwyr diwygiedig?</b>
<b>C6</b>	<b>Ydych chi'n credu y dylid annog heddluoedd i wneud mwy o ddefnydd o Ddatganiadau Effaith ar y Gymuned?</b>
<b>C7</b>	<b>(a) Ydych chi'n teimlo bod datganiadau effaith ar y gymuned yn ffordd effeithiol o ganfod y problemau sy'n wynebu cymunedau? (b) Os ydych chi, sut gellid annog heddluoedd i wneud rhagor o ddefnydd o'r Datganiad Effaith ar y Gymuned? (c) Os na, sut gellid gwella'r datganiadau effaith ar y gymuned?</b>
<b>C8</b>	<b>Ydych chi'n cytuno y dylai pob busnes gael yr hawl i wneud datganiad effaith i esbonio sut y mae trosedd wedi effeithio arnynt?</b>
<b>C9</b>	<b>Ydych chi'n credu y bydd y cynllun hwn o fudd i fusnesau?</b>
<b>C10</b>	<b>Ydych chi'n credu y dylai'r datganiad hwn gael ei ymestyn i sefydliadau eraill, elusennau er enghraifft?</b>
<b>C11</b>	<b>Ydych chi'n cytuno y dylai Cyfiawnder Adferol gael ei gynnwys yn y Cod Dioddefwyr lle mae'r troseddwr dros 18 oed?</b>
<b>C12</b>	<b>Ydych chi'n credu y bydd yr adran ar Gyfiawnder Adferol yn y Cod diwygiedig yn helpu i gefnogi gwaith ehangach i wella ymwybyddiaeth dioddefwyr am Gyfiawnder Adferol?</b>



C13	(a) Yn eich barn chi, faint o gynnydd fydd yn y defnydd o Gyfiawnder Adferol yn sgil y diwygiadau i'r Cod? (b) Yn eich barn chi, pa fathau penodol o ymyriad Cyfiawnder Adferol fydd yn cynyddu?
C14	Ydych chi'n credu y bydd y system gwyno yn y Cod diwygiedig yn darparu gwasanaeth gwell i ddiodefwyr? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.
C15	Yn eich barn chi, beth yw'r ffordd orau o fonitro cydymffurfiad a pherfformiad asiantaethau a sefydliadau o dan y Cod? A chan bwy? A ddylai hyn gael ei gyflawni'n lleol neu'n genedlaethol?
C16	Yn ogystal â'r gwelliannau a ddisgrifir yn y Cod, pa ddiwygiadau sy'n ofynnol, yn eich barn chi, i wella'r broses unioni cam ar gyfer diodefwyr?
C17	Ydych chi'n cytuno y dylid cael adran benodol ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Cod?
C18	Ydych chi'n cytuno bod y dyletswyddau ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yng nghyswllt plant a phobl ifanc yn gywir? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.
C19	Ydych chi'n ystyried bod yr adran hon yn briodol ac yn hawdd ei defnyddio ar gyfer plant a phobl ifanc?
C20	Sut y gallwn sicrhau bod cynnwys y Cod yn cael ei gyfleu'n effeithiol i ddiodefwyr?
C21	Ydych chi'n credu ein bod wedi nodi'n gywir ystod a hyd a lled effeithiau'r cynigion hyn ar y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?
C22	Os na, ydych chi'n gwybod am unrhyw dystiolaeth nad ydym wedi'i hystyried fel rhan o'n dadansoddiad o gydraddoldeb? Darparwch y dystiolaeth os gwelwch yn dda. Beth yw effaith y dystiolaeth hon ar ein cynigion?
C23	A oes gennych chi sylwadau yng nghyswllt ein hasesiad o effaith?
C24	Allech chi ddarparu unrhyw dystiolaeth neu ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ein helpu i ddeall ac asesu rhagor ar yr effeithiau hynny?
C25	Faint mae'n ei gymryd i gofnodi DPD a roddir gan ddiodefwyr trosedd?
C26	Beth yw'r baich ychwanegol ar sefydliadau cymdeithas sifil os cânt eu contractio i gymryd y DPD ar ran yr heddlu?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud rhywfaint amdanoch eich hun wrthym

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl eich swydd</b> neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, rhowch dic yn y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (rhowch dic yn y blwch)
Y cyfeiriad ar gyfer anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp os gwelwch yn dda a rhowch grynodedeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---



---



---

## **Manylion cysylltu/Sut mae ymateb**

Anfonwch eich ymateb erbyn 10 Mai 2013 at:

**Bola Fabunmi**  
**Ministry of Justice**  
**Post Point 8.01**  
**8<sup>th</sup> Floor**  
**102 Petty France**  
**Llundain SW1H 9AJ**  
**Ffôn: 020 3334 3555**

**E-bost: [VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk)**

### **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech chi gysylltu â Tim Charlton yn y cyfeiriad uchod.

### **Copiau ychwanegol**

Mae copïau ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol drwy anfon e-bost at: [VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:VictimsCodeConsultation@justice.gsi.gov.uk) neu drwy ffonio 020 3334 3555.

### **Cyhoeddi ymatebion**

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ystod yr haf. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk/index.htm>.

### **Grwpiau cynrychioliadol**

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

### **Cyfrinachedd**

Efallai y bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os hoffech i'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, o'r Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. Yn wyneb hyn byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam yr ydych yn ystyried y

wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynnddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu'ch data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti.

## **Egwyddorion ymgynghori**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>



© Hawlfraint y Goron 2013  
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.